

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Judi Davies / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|----------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a ganfuom..... | 8 |
| | Ansawdd profiad y claf | 9 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 13 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 22 |
| 4. | Beth sydd nesaf? | 25 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol..... | 26 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 27 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith | 28 |
| | Atodiad C – Cynllun gwella..... | 31 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Judi Davies, 24 Margaret Street, Abercynon, Aberpennar, CF45 4RE, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ar 21 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, ni allem fod yn sicr bod gan y practis systemau rheolaeth a sicrhau ansawdd addas ar waith er mwyn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddiogel.

Mae hyn oherwydd y canfuom fod nifer o welliannau sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ac amserol ar gyfarpar pelydr-X, y trefniadau diogelwch tân, gwirio'r cyfarpar dadheintio bob dydd, sut y caiff cyffuriau eu darparu a'u cynnal, a chyfarpar i'w ddefnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf, yn ogystal â chadarnhad o allu'r staff i ymgymryd â dadebriad cardio-anadlol. O ganlyniad i'r pryderon hyn, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis gan ddangos y gwelliannau roedd eu hangen.

Cawsom adborth cadarnhaol gan gleifion ynghylch y gwasanaeth a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis
- Roedd y practis yn ymddangos yn lân ac yn daclus
- Darparwyd digon o wybodaeth i gleifion ynghylch eu gofal.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefniadau diogelwch tân i amddiffyn staff, cleifion ac ymwelwyr i'r practis
- Gwiriadau bob dydd ar y cyfarpar dadheintio

- Sut y caiff cyffuriau eu darparu a'u cynnal a chyfarpar i'w ddefnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf
- Cadarnhad o allu'r staff i ymgymryd â dadebriad cardio-anadlol
- Cynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X mewn modd amserol
- Mae angen i ddeintyddion wella agweddau ar eu proses o gadw cofnodion ar gyfer y cleifion
- Mae angen prosesau ar gyfer gwneud archwiliadau clinigol ac anghlinigol
- Mae angen diweddarau rhai polisïau a gweithdrefnau.

Rhoddir rhagor o fanylion am y gwelliannau a nodwyd yn Atodiad C.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Judi Davies yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abercynon. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, nyrs ddeintyddol a derbynnydd, a oedd hefyd yn nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Mae'r practis yn darparu arlwy o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafwyd cyfanswm o 26 holiadur gan amrywiaeth o gleifion. Roedd rhai ohonynt wedi bod yn y practis am lai na dwy flynedd yn ogystal â chleifion a oedd wedi bod yn y practis am gyfnod hirach. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Nid oes angen ei wella" (mewn ymateb i'r cwestiwn 'Sut y gall y practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir?')

"Rwyf wrth fy modd â'r gofal a'r driniaeth rwyf yn eu cael tra wyf yma. Mae'r holl staff yn gyfeillgar – ni fyddwn i'n mynd at ddeintydd arall."

"Mae'r ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda ac mae trefn yno o hyd. Deintyddfa wych."

Cadw'n iach

Canfuom fod gan y practis amrediad mawr o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Byddai hyn yn helpu i hysbysu cleifion am yr angen i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dyweddodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol.

Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis deintyddol. Roedd y practis yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion pe baent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol, i ffwrdd o'r cleifion eraill.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau deintyddol preifat a chostau triniaethau deintyddol y GIG yn cael eu harddangos yn y man aros. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir cyn iddynt dderbyn y driniaeth. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod hefyd yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Heb amheuaeth, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth ynghylch eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau o ran triniaethau a oedd ar gael iddynt, ac roeddynt yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth gymaint ag yr oeddynt yn dymuno.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser; fodd bynnag, dywedodd ychydig o gleifion oedd yn siarad Cymraeg wrthym mai dim ond weithiau, neu fyth, yr oeddynt yn gallu siarad â staff yn y Gymraeg pan oeddynt yn dymuno.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn i'w weld ar ddrws blaen y practis ac roedd ar gael ar y peiriant ateb ac ar y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y rhan

fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Lleolir y practis mewn adeilad ac iddo un llawr, gyda'r holl gyfleusterau wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn a/neu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd am fod ramp sefydlog yn arwain i fyny at y practis.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion ynghylch sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ond dywedodd dri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn. Gwnaethom argymhell bod angen diweddarau'r broses gwyno er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Canfuom fod y practis wedi gofyn i gleifion, drwy holiadur, am eu safbwyntiau ynghylch y triniaethau deintyddol a dderbyniwyd. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld pryd y cafodd yr holiaduron eu dosbarthu a'u cwblhau gan nad oeddynt wedi'u dyddio, ac nid oeddem yn gallu gweld unrhyw ganlyniadau neu gynllun o ganlyniad i'r holiadur cleifion. Serch hynny, cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu holi drwy holiadur cleifion ynghylch eu safbwyntiau ynghylch y practis deintyddol. Gwnaethom argymhell i'r practis y dylent ddadansoddi unrhyw holiaduron cleifion yn y dyfodol er mwyn gweld os oes modd gwneud gwelliannau. Efallai y byddai'r practis hefyd eisiau ystyried gweithredu proses er mwyn galluogi cleifion i roi adborth pan fyddant yn dymuno. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn gwyno er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod angen rhoi sylw ar unwaith i ddiogelwch tân yn y practis er mwyn amddiffyn staff, cleifion ac ymwelwyr i'r practis.

Gwelsom nad oedd tystysgrif ar gael i'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer peth cyfarpar ac roedd angen cynllun gwella ar unwaith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd angen gwneud gwelliannau o ran rhai trefniadau ar gyfer dadheintio.

Gwnaethom nodi bod angen i'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, a bod angen cyflwyno gwiriadau rheolaidd o gyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i agweddau o broses cadw cofnodion y deintyddion er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod gan y practis rywfaint o drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld ag ef. Fodd bynnag, roedd pryderon gennym ynghylch rhai o'r trefniadau diogelwch tân yn y practis.

Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, canfuom fod y rhan fwyaf o'r ystafelloedd a'r coridorau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn lân, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg ynddynt. Ni chodwyd unrhyw bryderon chwaith gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Fodd bynnag, canfuom

fod y cywasgydd wedi'i leoli mewn stordy a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cadw eitemau amrywiol eraill. Roedd y rhain yn cynnwys gwastraff clinigol, boncyffion wedi'u torri ac addurniadau. Roedd y rhain wedi'u storio'n agos iawn at y cywasgydd, ac roedd hyn yn peri risg o dân pe bai'r cywasgydd yn gordwymo.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y mater uchod yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis ar unwaith wedi'r arolygiad, gan fynnu bod camau adferol brys yn cael eu cymryd. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Canfuom fod yr offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Gwelsom hefyd fod arwyddion wedi'u harddangos yn dangos llwybrau gadael pe bai tân, ond nid oeddem yn gallu gweld unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig yn rhoi cyngor i ymwelwyr ynghylch y camau gweithredu pe bai tân.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch diogelwch tân yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Fodd bynnag, er ein bod wedi canfod bod y gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel, mae angen i'r practis gael cyngor ynghylch storio gwastraff peryglus yn ddiogel oherwydd pa mor agos y mae'r cywasgydd.

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn cynhyrchu ychydig bach iawn o wastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig), ac y gwaredid arno mewn modd priodol.

Canfuom fod gan y practis bolisi rheoli gwastraff ar waith a oedd angen ei ddiweddarau. Gwnaethom argymhell bod angen i'r polisi fod yn fwy manwl er mwyn cynnwys y trefniadau ar gyfer storio gwastraff, casglu gwastraff, a'r defnydd o finiau offer miniog. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi rheoli gwastraff er mwyn cynnwys trefniadau penodol ar gyfer y practis.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn gyffredinol yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).¹

Roedd y cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf² a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu gwneud yn y practis a'u bod yn cadw llyfr cofnodi, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer y profion a gynhalid ar offer sterileiddio ar ddechrau'r diwrnod.

Er bod gan yr awtoclaf opsiwn o ddefnyddio argraffydd awtomataidd er mwyn cofnodi pob cylch a brosesir, nid oedd y practis yn defnyddio'r swyddogaeth hon. O ganlyniad, nid oedd modd i'r practis brofi bod unrhyw gylch arall, ar wahân i'r un ar ddechrau'r diwrnod, wedi cyrraedd y paramedrau priodol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar wedi cael ei sterileiddio'n effeithiol.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y profion a wneir ar y peiriant awtoclaf o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

¹ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

² Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Bu i'r staff ddangos proses o ddadheintio. Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau diweddar yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant mewn dadheintio. Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn dadheintio, ond nid oedd tystysgrifau ar gael gan y sefydliad hyfforddi. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau ei fod yn casglu a chadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant er mwyn profi bod staff wedi ymgymryd â hyfforddiant. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roedd y staff yn cynnal proses glanhau â llaw cyn i offer gael eu prosesu trwy'r awtoclaf. Gwnaethom argymhell rhai meysydd lle gellid gwella'r broses ddadheintio, fel sy'n cael ei argymhell gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn cynnwys staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol ar bob achlysur, yn enwedig defnyddio ffedog. Cytunodd y practis i roi sylw i hyn.

Nid oedd gan y practis bolisi ysgrifenedig ynghylch atal a rheoli heintiau. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Nid oedd y practis yn gallu profi ei fod wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwnaethom argymhell i'r practis y dylent weithredu proses er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth ymgymryd â dyletswyddau glanhau.

Dylai'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau a chreu cynllun gweithredu er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewyg), a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel. Er bod y cyffuriau o fewn eu dyddiadau dod i ben, gwelsom fod y padiau a ddefnyddir yn y diffibriliwr awtomataidd allanol (AED) wedi dod i ben ym mis Ebrill 2014. Roedd hyn yn golygu na ellid rhoi sicrwydd inni fod y padiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio.

Nid oedd modd i'r practis brofi bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys a'r cyfarpar yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Dadebru (DU).³ Roedd hyn yn golygu na ellid rhoi sicrwydd inni fod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio. Mae'n ofynnol gennym fod y practis yn cyflwyno proses ar gyfer ymgymryd â'r gwaith o wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys, a chofnodi'r gwiriadau hyn yn rheolaidd, yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Dadebru (DU). Canfuom hefyd bod cyfarpar a deunyddiau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben, a gwnaethom argymhell bod y practis yn ail-lenwi'r cyfarpar ac yn ei gynnwys yn rhan o'i wiriadau rheolaidd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch padiau'r diffilbriliwr awtomataidd allanol a'r gwiriadau ar y cyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Nid oedd modd i'r practis brofi bod yr holl staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom dystysgrifau ar gyfer rhai aelodau o staff yn dangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ym mis Mawrth 2016. Roedd hyn yn golygu na ellir rhoi sicrwydd inni fod y practis wedi hyfforddi'r staff yn briodol pe bai argyfwng. Gwelsom fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2017, a fyddai o fewn yr amserlen briodol, ond cafodd ei ddileu oherwydd amgylchiadau eithafol a'i aildrefnu ar gyfer mis Hydref 2017.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd yn unol â'n proses sicrwydd ar unwaith. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

Canfuom fod y practis yn storio meddyginiaethau gwrthfotig, yn barod i'w rhoi fel presgripsiwn i gleifion, mewn cwpwrdd nad oedd modd ei gloi. Er nad oedd gan y cleifion fynediad at yr ardal hon o'r gwasanaeth, gwnaethom argymhell bod meddyginiaeth yn cael ei storio dan glo er mwyn atal mynediad heb ganiatâd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

³ Mae'r [Cyngor Dadebru \(DU\)](#) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid storio meddyginiaethau yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb ganiatâd.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddiweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt timoedd diogelu plant ac oedolion y cyngor lleol er mwyn hwyluso'r broses o gyfeirio atynt pe bai angen. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff priodol wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion ond, er i ni weld tystysgrifau yn cadarnhau bod y mwyafrif o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrif ar gyfer un aelod o'r tîm. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis sicrhau ei fod yn casglu a chadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol er mwyn profi bod staff wedi ymgymryd â hyfforddiant. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon cysylltiedig â'r gwaith wrth uwch-staff y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddu'r polisi diogelu oedolion a phlant i gynnwys manylion cyswllt timoedd diogelu'r cyngor lleol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr ystafell driniaeth yn y practis, a nodi ei bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Canfuom fod yr offerynnau deintyddol yn yr ystafell driniaeth mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cyfarpar radiograffeg (pelydr-X) yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Roedd hyn am nad oedd y practis yn gallu darparu tystysgrifau cynnal a chadw cyfredol o'r

cyfarpar pelydr-X a ddefnyddir. Tynnwyd sylw'r deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad at hyn a threfnodd arolygiad ar gyfer 29 Mehefin 2017.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch cynnal a chadw'r offer pelydr-X ar ddiwrnod ein harolygiad. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth yn Atodiad A.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y deintyddion i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Nid oeddem yn gallu gweld bod y nyrsys deintyddol wedi derbyn hyfforddiant mewn ymbelydredd ïoneiddio. O ganlyniad, gwnaethom argymhell bod y practis yn ceisio cyngor ar ofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ o ran yr hyfforddiant a awgrymir i weithwyr clinigol proffesiynol.

Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod archwiliadau rheolaidd o ansawdd delweddu pelydr-X wedi cael eu cwblhau fel rhan o waith monitro'r practis ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen. Gwnaethom argymhell y dylai hyn gael ei roi ar waith. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dylai'r practis weithredu archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y pelydrau-X a dynnir i sicrhau ansawdd y delweddu.

Gofal effeithiol

4

<http://www.gdcuk.org/Newsandpublications/Publications/Publications/Continuing%20Professional%20Development%20for%20Dental%20Professionals.pdf>

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni welsom fod gan y practis raglen ar waith ar gyfer ymgymryd ag amrediad eang o archwiliadau clinigol ac anghlinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom drafod hyn â'r practis ac argymell y dylai ystyried gweithredu rhaglen o archwiliadau drwy gydol y flwyddyn. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid yn y practis. Roedd hyn yn peri risg bosibl o'r deintyddion yn ymarfer mewn arwahanrwydd clinigol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi gwelliannau o ran ymarfer, a chytunodd i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal ar fformat papur a chanfuom eu bod yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau o dan glo.

Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Canfuom feysydd pryder yn ymwneud â safon cofnodion yng nghofnodion cleifion, a oedd yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod cleifion yn derbyn safon dderbyniol o ofal a thriniaeth.

Gwnaethom nodi bod yn rhaid gwneud gwelliannau i'r canlynol:

- Nid oedd y deintyddion wedi nodi defnydd o alcohol a thybaco cleifion bob amser, nac unrhyw gyngor ar hybu iechyd a ddarparwyd. Hefyd, nid oedd cyflwr meinweoedd meddal yn cael ei gofnodi ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Byddai'r rhain yn dangos bod deintyddion wedi asesu cleifion o ran eu risg o ddatblygu canser y geg a'u bod wedi rhoi cyngor ar sut y gellid lleihau'r risg hon.
- Mae'n rhaid cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth ym mhob apwyntiad.
- Nid oedd cynlluniau triniaeth, esboniad o'r dewisiadau o ran triniaethau a oedd ar gael i'r cleifion, na'r triniaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n gyson gyda'r cofnodion.
- Er bod siartio sylfaen llawn wedi'i gwblhau yn y cofnodion cleifion a welsom, mae angen i'r deintyddion sicrhau bod y siartiau hyn yn cael eu dyddio bob amser.

Trafodwyd y canfyddiadau'n fanwl â'r deintydd a gwnaethom argymhell y dylent roi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cofnodion cleifion, yn ogystal â chyflwyno archwiliad o gardiau cofnodion cleifion. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi a'u mesur o ran ansawdd yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gymryd delweddau pelydr-X a'u canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Dau ddeintydd oedd yn berchen ar y practis ac roeddynt yn cael eu cefnogi gan nyrs ddeintyddol a derbynnydd. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu **ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion**. Roedd angen diweddarau rhai o'r polisiâu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis, a'r tîm ehangach. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod copïâu o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Dau ddeintydd oedd yn berchen ar y practis ac yn ei reoli, ac roeddynt yn cael eu cefnogi gan nyrs ddeintyddol a derbynnydd. Un o'r deintyddion oedd yn bennaf gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y deintydd ddangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Canfuom eu bod, fel tîm bach, yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd a, lle bo'n briodol, byddai'r practis yn cymryd cofnodion o'r cyfarfodydd, a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Er i ni weld bod arlwy o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion, roedd angen diweddarau rhai ohonynt. Gwelsom nad oedd gan bob polisi a gweithdrefn ddyddiadau adolygu na rhif y fersiwn a/neu nad oedd y polisi/gweithdrefn wedi cael ei llofnodi gan staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Gwelsom hefyd fod rhai o'r polisiâu'n cyfeirio at chwaer-bractis deintyddol y practis. Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gallu dangos bod polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u bod yn cael eu cyfathrebu i'r holl staff yn effeithiol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a sicrhau eu bod yn benodol i'r practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, ac i ffurfioli'r broses ar gyfer cyfathrebu newidiadau i'r holl staff.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhai tystysgrifau hyfforddiant, fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, ar gael yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau ei fod yn casglu a chadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant er mwyn profi bod staff wedi ymgymryd â hyfforddiant.

Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom fod y derbynnydd newydd ei apwyntio yn cael ei gefnogi'n llawn i ddod yn nyrs ddeintyddol, maes y mae'n werth talu sylw iddo fel arfer da o reoli.

Cadarnhaodd y practis nad oeddynt yn cynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer staff. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cyflwyno rhaglen o arfarnu staff yn flynyddol, a chytunodd y practis ar hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gadw canlyniadau

imiwneiddiadau staff i sicrhau bod cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom hefyd dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintyddion oedd yn gweithio yn y practis yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn casglu a chadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant perthnasol ar gyfer staff er mwyn profi eu bod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant, a sicrhau eu bod ar gael i'w harolygu.

Dylai'r practis gyflwyno rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer staff.

4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae'n cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Nid oedd y practis yn gallu darparu tystysgrifau cynnal a chadw cyfredol o'r cyfarpar pelydr-X a ddefnyddir. Tynnwyd sylw'r deintydd at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe wnaeth drefnu arolygiad ar gyfer 29 Mehefin 2017. | Roedd hyn yn golygu nad oedd y practis yn gallu profi bod y cyfarpar pelydr-X yn ddiogel i'w ddefnyddio. Safon 2.9 Dyfeisiadau, offer a systemau diagnostig meddygol | Gwnaethom fynegi ein pryder ar lafar gyda'r deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad. | Trefnodd y deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad i gael peiriannydd i ddod i'r practis ar 29 Mehefin 2017 er mwyn ymgymryd â'r dasg ofynnol o arolygu'r cyfarpar. |

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Deintyddfa Judi Davies

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------|
| <p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod mesurau digonol a phriodol ar waith er mwyn lleihau'r risg o anafiadau neu golli bywydau pe bai tân. Dylai'r rhain fod ar sail canfyddiadau asesiad risg diogelwch tân.</p> <p>Mae angen ceisio cyngor gan berson(au) cymwys yn ôl yr angen.</p> | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | <p>Bydd yr ystafell lle ceir y cywasgydd yn cael ei gwagio o'r holl eitemau eraill.</p> <p>Bydd cyfarwyddiadau mewn argyfwng yn cael eu rhoi yng nghefn yr adeilad yn y stordy, yn ogystal ag ym mlaen yr adeilad yn yr ystafell aros, a byddant ar gael i'r staff a'r cleifion eu gweld yn glir.</p> | Philip Davies | 10/07/17 |
| Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau addas | 2.4 Atal a rheoli | Bydd y nyrs sy'n gweithio yn monitro | Charlotte | 10/07/17 |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|----------|
| er mwyn dangos bod pob cylch sy'n mynd drwy'r awtoclaf yn cael ei wirio'n briodol a'i gofnodi er mwyn sicrhau ei fod wedi cyrraedd y paramedrau priodol ar gyfer sterileiddio'r cyfarpar deintyddol yn effeithiol. | heintiau a dadheintio | ac yn cofnodi'r cylchoedd awtoclaf unigol mewn llyfr cofnodi. | Howells | |
| Mae'n rhaid i'r practis gyflwyno polisi ysgrifenedig sy'n nodi'r manylion yn y practis o ran atal a rheoli heintiau. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Ysgrifennir polisi sy'n manylu ar atal a rheoli heintiau. Bydd y polisi'n cael ei gadw ger polisïau ysgrifenedig eraill y practis. | Philip Davies | 01/08/17 |
| Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod: <ul style="list-style-type: none"> • pecyn llawn a ddefnyddir mewn achos brys ar gael yn y practis, a bod • gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU). | 2.6 Rheoli meddyginia ethau | Mae padiau newydd ar gyfer y diffibriliwr eisoes wedi eu harchebu. Bydd cofnod o ddyddiadau dod i ben cyffuriau a chyfarpar yn cael ei gadw. | Charlotte Howells | 10/07/17 |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------|
| <p>Mae'n rhaid i berchnogion y practis gadarnhau i AGIC eu bod wedi cymryd camau gweithredu i sicrhau y gall y staff berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd mewn argyfwng.</p> <p>Mae angen ceisio cyngor gan berson(au) cymwys yn ôl yr angen.</p> | 2.6 Rheoli meddyginia ethau | <p>Cysylltwyd â'r hyfforddwr ac mae'r hyfforddiant a drefnwyd ar gyfer mis Hydref 2017 wedi'i drefnu'n gynt bellach ar gyfer 1 Medi 2017. Dyma'r dyddiad cynharaf yr oedd modd trefnu hyfforddiant gan nad oedd unrhyw gyrsiau eraill ar gael cyn y dyddiad hwn.</p> <p>Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant blynyddol ac wedi rhoi tystiolaeth o hyn.</p> | Philip Davies | 01/09/17 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dr Philip Davies

Swydd: Prif Lawfeddyg Deintyddol

Dyddiad: 06/07/17

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Deintyddfa Judi Davies

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|---------------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Mae angen i'r practis ddiweddarau ei weithdrefn gwynion i gynnwys manylion cyswllt AGIC. | 6.3 Gwrandao a dysgu o adborth | Gweithdrefn gwyno wedi'i diweddarau. | Judi Davies | Cwblhawyd Medi 2017 |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi rheoli gwastraff i gynnwys y trefniadau sy'n benodol i'r practis. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae polisiâu yn cael eu diweddarau i gynnwys mwy o fanylion ynghylch rheoli gwastraff. | Judi Davies | Cwblhawyd Awst 2017 |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth gyflawni dyletswyddau glanhau. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae arwydd wedi'i osod i atgoffa'r staff i wisgo cyfarpar diogelu personol ar bob adeg yn ystod y cylch dadheintio. | Phil Davies | Cwblhawyd Medi 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|------------------------------------------------|
| Dylai'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau a chynhyrchu cynllun gweithredu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Caiff hyn ei weithredu fel rhan o'r prosesau archwilio clinigol. | Prif ddeintyddion | Yn parhau |
| Rhaid i feddyginiaeth gael ei storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae gwrthfotigau mewn bocs cloadwy. | Phil Davies | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis adolygu'r polisi diogelu plant ac oedolion i gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | Mae manylion cyswllt y timau diogelu wedi cael eu cynnwys yn y polisi, yn ogystal ag ar y nodyn presennol ar y wal. | Judi Davies | Cwblhawyd Awst 2017 |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ìoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Bydd y staff yn cael eu cofrestru ar gwrs ymbelydredd mor fuan â phosibl. | Prif ddeintyddion | Rhan barhaus o hyfforddiant nyrsio deintyddol. |
| Dylai'r practis weithredu archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y pelydrau-X a dynnir i sicrhau ansawdd y delweddau. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Bydd archwiliadau pelydr-X yn dechrau mewn pythefnos. | Prif ddeintyddion | Medi 2017 |
| Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau | 3.1 Gofal diogel a | Bydd archwiliadau clinigol ac anghlinigol | Prif ddeintyddion | Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|---------------------------------------------------|
| clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella fel rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol. | chlinigol effeithiol | yn cael eu cynyddu a bydd amser yn cael ei neilltuo bob mis i wneud hyn. | | |
| Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd | Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda phractis deintyddol arall i gyflawni adolygiad clinigol gan gymheiriaid. | Prif ddeintyddion | Proses i ddechrau erbyn diwedd 2017 ac yn barhaus |
| Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae talfyriadau bellach ar waith er mwyn osgoi camddealltwriaeth. | Judi Davies | Cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | 3.5 Cadw cofnodion | Bydd cyfiawnhad ar gyfer y pelydrau-X yn dechrau ar unwaith ar gyfer yr holl gleifion. | Prif ddeintyddion | Medi 2017 Cwblhawyd |

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|-------------------------------------------------|
| Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, ac i ffurfioli'r broses ar gyfer cyfathrebu newidiadau i'r holl staff. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae'r broses o ddiweddarau polisiau a gweithdrefnau yn mynd rhagddi. | Prif ddeintyddion | Yn parhau |
| Dylai'r practis sicrhau ei fod yn casglu ac yn cadw'r holl dystysgrifau hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff i ddangos bod hyfforddiant wedi cael ei gyflawni, a'u gwneud ar gael i'w harchwilio. | 7.1 Gweithlu | Bydd y practis yn mynd ar drywydd yr adran ôl-raddedigion leol mewn perthynas â thystysgrifau hyfforddiant nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi. | Phil Davies | Yn parhau |
| Dylai'r practis weithredu rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o staff. | 7.1 Gweithlu | Bydd yr holl staff yn cael arfarniadau blynyddol. | Prif ddeintydd | Proses i ddechrau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2017 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Phil a Judi Davies

Swydd: Prif ddeintyddion

Dyddiad: 14 Medi 2017